

SAFLE TRAWSFYNYDD
COFNODION YR AIL GYFARFOD AR BYMTHEG O'R GRŴP RHANDEILIAID SAFLE
A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO
DDYDD LLUN 11 MEHEFIN 2012

PRESENNOL

Y Cyng J Isgoed Williams Cadeirydd

Safle Trawsfynydd

Mr Dave R Wilson	Cyfarwyddwr y Safle
Mr Kevin Titley	Magnox
Mr Ian Edwards	Magnox
Ms Amanda Tucker	Magnox
Mr Rory Trappe	Magnox
Mr Chris Skarratt	Magnox
Mr Robin Phillips	Magnox
Mr Raymond Parry	Magnox
Mr Bryan Walley	Magnox
Mr Paul Richardson	Magnox
Mr Andy M ^c Ateer	Magnox

Horizon

Mr Richard Foxhall

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Mr Jonathan Jenkin
Ms Karen Dickens

Cyngor Gwynedd

Y Cyng Thomas Ellis
Mr Dylan Griffiths

Cynghorau Tref a Chymuned

Y Cyng Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Y Cyng John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Y Cyng D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Y Cyng Gareth Thomas	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal Williams	Traws-Newid
Dr Iolo ap Gwynn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Keith O'Brien	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Y Cyng E Caerwyn Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Arsyllwyr

Ms Michelle Humphreys	Magnox
Ms Zoe Young	Magnox
Mr Eurwyn Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mr John Morgan	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mr Gwynfor Owen
Miss Elen Williams

Cyfieithu – Cymen
Cofnodion

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Mr Aled Sturkey	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Bryan Halsey	Magnox
Mr Dafydd Jarrett	NFU Cymru

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod. Croesawodd hefyd Zoe Young sy'n Swyddog Cyfathrebu i Magnox a Jonathan Jenkin o'r NDA, yn ogystal â Michelle Humphreys, Karen Dickens, Richard Foxhall ac Amanda Tucker, gan y byddem yn clywed rhagor ganddynt yn nes ymlaen. Dywedodd hefyd nad oedd Chris Kemp yn bresennol ond ei fod wedi darparu adroddiad ar ran yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear. Nid oedd Steve Howard yn bresennol ac nid oedd adroddiad wedi dod i law gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rhag ofn fod ambell wyneb newydd yn y Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn dilyn yr etholiadau diweddar ac ati, gofynnodd y Cadeirydd i bawb gyflwyno ei hun.

2. Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2011

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u derbyn yn gofnod cywir yn amodol ar y cywiriadau canlynol:

- 2.1 Roedd y Cyng Meredydd Williams yn bryderus nad oedd ei enw ar y rhestr presenoldeb yn y cofnodion. Yn ogystal â hynny, yn y cyfarfod diwethaf, roedd y grŵp wedi dweud y dylid nodi enwau'r rhai a oedd yn gofyn cwestiynau, ond nid oedd ei enw ef wedi cael ei nodi ar ddau achlysur yn 6.19.
- 2.2 Dylai'r ffigurau a welir yn 6.4 fod mewn miliynau, felly dylent edrych fel a ganlyn:
Gwerth Gwaith ar y Llinell Sylfaen – Oddeutu £84 miliwn
Gwerth Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn (Perfformiad yn erbyn y Llinell Sylfaen) – £45.798 miliwn
Cost Wirioneddol Hyd yn Hyn – £45.397 miliwn
- 2.3 O ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, dywedwyd hefyd na fyddai cynrychiolaeth o hyn ymlaen ar y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

Ar ôl trafod y materion hyn, cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Mr Idwal Williams ac eiliwyd hynny gan Mr Keith O'Brien.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2011

- 3.1 Holodd Dr Iolo ap Gwynn am gwestiwn 6.19f ynghylch data yn ymwneud ag o ble mae pobl yn dod er mwyn gweithio ar y safle. Holodd a oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud neu a oedd yna unrhyw ddiweddariadau. Atebodd Cyfarwyddwr y Safle eu bod wedi bod yn rhoi gwybodaeth at ei gilydd a bod gwaith yn cael ei wneud yng nghyswllt hynny, ond er ei bod yn bosib cael cyfeiriad mae'n anodd cael yr union ddata a gwneud yn siŵr eu bod yn hollol gywir.
- 3.2 Holodd y Cyng Meredydd Williams a oedd unrhyw ddatblygiadau yng nghyswllt CORWM, a dywedodd y Cadeirydd y byddai datganiad yn cael ei roi yn ystod y bore.
- 3.3 Gofynnodd y Cyng John Richards a fyddai cyfle i adolygu ac ehangu ar PONDS yn eitem 6.11.

4. Cyfarchiad y Cadeirydd

- 4.1 Ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Cadeirydd wedi bod yn brysur gyda gwahanol baneli a phwyllgorau.

- 4.2 Roedd wedi mynychu cyfarfod yn Llandudno lle'r oedd Edwina Hart yn lansio arian ar gyfer yr ardal hon a fydd yn rhoi sylw i sgiliau gweithwyr niwclear ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd pa mor bwysig yr ydyw i gael arian ar gyfer sgiliau, ac roedd yn gobeithio y byddai'n bosib cael prentisiaid hefyd i fwrw ymlaen â'r sgiliau ar gyfer y dyfodol.
- 4.3 Roedd Mr Idwal Williams wedi bod yn cynrychioli'r Cadeirydd mewn cynhadledd Magnox yn Llundain, ac estynnwyd gwahoddiad iddo ddweud ychydig eiriau.
- 4.4 Roedd Mr Idwal Williams a Jonathan Jenkin wedi bod yn y gynhadledd ddechrau Mai, a oedd yn cynnwys 15 o bobl i gyd. Roedd y Crynodeb o Gynllun Magnox wedi cael ei drafod ac roedd ar gael i'w lwytho oddi ar y we, yn ogystal ag adroddiad Cyflawniadau Magnox ar gyfer 11/12. Trafodwyd y broses gystadleuaeth a nodwyd bod 13 o gwmnïau wedi dangos diddordeb i gymryd drosodd gan EnergySolutions, er ei bod yn debygol y byddai mwy eto yn dangos diddordeb. Yr hyn sy'n bwysig yw y bydd y cwmnïau hyn yn dod i'r safleoedd ac y bydd pob un yn cael ei drin yn gyfartal. Mae oddeutu 16 dyddiad ar gyfer y broses, a gellir gweld y rhain ar y we.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

- 5.1 Rhoddodd Mr Dave R Wilson, Cyfarwyddwr y Safle, gyflwyniad ynghylch cyrraedd cyflwr Gofal a Chynnal priodol erbyn mis Rhagfyr 2016.
- 5.2 O ran diogelwch, roedd 567 diwrnod wedi mynd heibio ers y digwyddiad diwethaf lle'r oedd amser gwaith wedi'i golli. Ni fu dim digwyddiadau yn ystod y flwyddyn a fu. Roedd un person wedi torri ei fawd, ac mae hynny'n egluro pam mae'r ffigur ar gyfer Cyfanswm yr Achosion a Gofnodwyd dros y 12 mis diwethaf yn 1.
- 5.3 Rhoddwyd amlinelliad o'r amserlen ar gyfer y Rhaglen:
Cyrraedd y Cyfnod Gofal a Chynnal – Rhagfyr 2016
Cyfnod Gostwng Uchder – 2020 hyd at 2026
Cyfnod Clirio'r Safle'n Derfynol – 2076 hyd at 2085
- 5.4 Dyma'r ffigurau ariannol ar gyfer 2012/13:
Gwerth Gwaith ar y Llinell Sylfaen – Oddeutu £80.7 miliwn
Gwerth Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn (Perfformiad yn erbyn y Llinell Sylfaen) – £11.7 miliwn
Cost Wirioneddol Hyd yn Hyn – £11.7 miliwn
- 5.5 Mae Trawsfynydd wedi cael Gwobr y Llywydd gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Damweiniau (RoSPA), i gydnabod llwyddiant y safle o ran diogelwch. Mae hyn yn golygu bod y safle wedi cael 13 gwobr yn olynol.
- 5.6 Dangoswyd sleidiau o sut mae'r safle'n debygol o edrych yn 2016 a 2026. Erbyn 2016 byddai'r safle'n dal i gael ei oruchwylio, a nodwyd ei bod yn bosib y bydd yr adeilad gweinyddu yn cael ei adael fel y mae. Byddai rhywfaint o oruchwyliaeth yn 2026.
- 5.7 Mae'r gwaith o gapio'r toeau wedi cael ei gwblhau. Mae hyn yn allweddol er mwyn gostwng yr uchder, ac mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau yn gynt na'r disgwyl. Mae'r gwaith wedi cynnwys 850m³ o goncrid, 500 tunnell o ddr a chyfanswm o 325,912 o oriau gwaith.
- 5.8 Gan edrych ar Ddatgymalu a Seilwaith, mae gwaith trwsio wedi cael ei wneud, yn enwedig ar y grisiau a'r lifftiau. Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud i atgyfnerthu'r waliau a'r adeilad yn dilyn problemau cracio ac yn y blaen. Bu cyfleoedd i wneud rhagor o waith atgyfnerthu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.
- 5.9 Yn ddiddorol iawn, yn dilyn problemau ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r lifftiau, mae hoist Alimak newydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â rhaglen y Storfeydd Diogel. Trawsfynydd yw'r safle Magnox cyntaf i fynd ati'n llwyddiannus i roi lifft newydd yn lle hen un mewn adeilad adweithydd.
- 5.10 Fel rhan o'r paratodau allanol, cwblhawyd gwaith strwythurol a gwaith amddiffyn rhag y tywydd i'r grisiau gorllewinol. Cwblhawyd y gwaith atgyweirio allanol i gyd gan dîm o

abseilwyr arbenigol a fu'n gweithio 4,320 awr heb ddigwyddiad a arweiniodd at gollu amser.

- 5.11 Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda yng nghyswllt Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED).
- 5.12 Mae 1700 o ddrymiau angen eu symud i'w storio, ac mae'n rhaid i bob un ohonynt gyrraedd y brif storfa erbyn 2016.
- 5.13 O ran Treialon Drymiau Resin Glân, mae drymiau llawn wedi cael eu mewngapsiwleiddio ac mae mân bethau wedi newid, megis y paent ar y drwm. Mae'r resinau olaf wedi cael eu hadfer.
- 5.14 Mae gwaith wedi'i wneud i gael gwared ar Wastraff Lefel Ganolradd (ILW) tywod a graean drwy ddefnyddio dull arloesol. Mae hwn yn waith anodd, delio â'r 20% olaf o wastraff.
- 5.15 Mae gwaith wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus ar ran ogleddol Ponds (PNV) i baratoi ar gyfer defnyddio braich drefnu symudol. Bydd y fraich hon yn nôl cymysgedd o laid a gwastraff solid o'r PNV, ac mae hyn yn un o'r targedau ar gyfer 2012/13. Byddai braich robotaid yn dod i'r safle yn fuan.
- 5.16 Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda gyda'r sgablo. Roedd angen gwneud cryn dipyn o waith ar y cymalau. Mae llawer o ddata cychwynnol wedi cael eu casglu ac mae gwaith yn cael ei wneud i weld pa mor lân yw glân. Y bwriad presennol yw cyrraedd lefelau glân er mwyn cyrraedd darn gwastad o dir. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r rheoleiddwyr nawr, ac mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwybodol o bopeth.
- 5.17 Mae wal wedi cael ei chwalu rhwng y coridor deheuol a'r man derbyn deheuol, gan alluogi gwaith dadlygru i fynd rhagddo. Mae'r gât wreiddiol wedi cael ei thynnu gan ganiatáu mynediad i Brokk, ac mae'r rwbél a oedd yn weddill wedi cael ei falu'n fân a'i dynnu gyda'r system sugno.
- 5.18 O ran y Daeargelloedd Gwastraff Gweithredol, mae un neu ddau o eitemau mwy yn cael sylw.
- 5.19 Mae darnau mwyaf ac olaf y peiriant tanwydd sydd wedi'i ddatgymalu wedi cael eu tynnu ac mae dau ddarn gwaelod dur, sy'n pwyso mwy na 30 tonnelli yr un, wedi cael eu trosglwyddo i safle gwaredu gwastraff yn Whitemoss, Swydd Gaerhirfryn.
- 5.20 Mae'r Gwastraff Lefel Isel (LLW) yn dal i gael ei gludo a'r cysyniad Arbed, Ailddefnyddio ac Ailgylchu yn cael ei ddefnyddio pryd bynnag y bo modd.
- 5.21 Mae 56 o becynnau Gwastraff Lefel Ganolradd (ILW) wedi'u storio a 1728 o ddrymiau yn cael eu storio dros dro cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd.
- 5.22 Dywedodd Mr Dave Wilson eu bod yn cyrraedd y pwynt lle mae gwaith dymchwel yn cael ei wneud a phethau'n cael eu chwalu.
- 5.23 O ran materion Economaidd-Gymdeithasol, dyma'r ffigurau cyflogaeth:
- | | |
|---------------------|-----|
| Cyfanswm Cyflogaeth | 821 |
| Staff | 203 |
| Asiantaeth/CSW | 139 |
| Contractwyr | 479 |
- (Nid yw pob contractwr yn gweithio'n llawn amser ar y safle ac mae nifer y contractwyr yn newid wrth i brosiectau gychwyn a dod i ben)
- 5.24 Mae tri phrentis o Goleg Menai ar y safle ar hyn o bryd a bydd dau arall yn dechrau fis Medi. Bydd dau leoliad diwydiannol a naw profiad gwaith yn ystod yr haf. Bydd Magnox yn recriwtio graddedigion bob blwyddyn ac mae dau wedi'u lleoli yn Nhrawsfynydd.
- 5.25 Mae Llunio'r Dyfodol ar ben ffordd. Bydd pob aelod o staff yn cael cyfweiliad i feddwl am y dyfodol.

- 5.26 O ran ymweliadau safle ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, cafwyd ymweliad gan Weinidog Llywodraeth Cymru John Griffiths (Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy) ar 19eg Ionawr 2012, ac ymwelodd Cadeirydd yr NDA Stephen Henwood a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas â'r safle ar 13eg Mawrth 2012. Mae Parth Menter Eryri wedi cael ei sefydlu a bydd y bwrdd yn cael ei gadeirio gan Mr John Idris Jones.
- 5.27 Yn gryno, roedd perfformiad o safbwynt diogelwch a'r amgylchedd wedi bod yn dda, roedd prosiectau mawr yn datblygu'n dda, ac roedd ymrwymiad parhaus gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.
- 5.28 O ran y broses gystadleuaeth, o safbwynt y safle, dywedodd Mr Dave Wilson na fydd y broses yn effeithio ar ei waith ef ac nad oedd ef yn mynd i fod yn gwneud y cais. Roedd ef yn canolbwyntio ar gyflawni, ac yn rhoi blaenoriaeth i barhau â'r gwaith datgomisiynu.

5.29 Cwestiynau

- a. Y Cyng John Richards – Ym mis Rhagfyr 2009, roedd gwaith Malurion Rhodenni Tanwydd (FED) eisoes ar gost o £2 filiwn. Beth yw'r diweddaraf ynglŷn â hynny, gan fod FED yn mynd ymlaen ers tro.
Mr Dave Wilson – Erbyn hyn, mae'r cynlluniau'n glir ac wedi cael eu setlo, a gwaith yn cael ei wneud ar y Gogledd a'r De ar yr un pryd. Mae wedi bod yn fater o baratoi mewn un flwyddyn ariannol a cheisio cyrraedd carreg filltir yn y flwyddyn ganlynol. Roeddent wedi bod yn edrych ar y potensial o drosglwyddo i Dungeness ond mae Bradwell wedi cymryd blaenoriaeth.
- b. Y Cyng Meredydd Williams – O ran gollyngiadau, ydy'r sefyllfa a'r parhad yn cael eu monitro?
Mr Dave Wilson – Materion hanesyddol yw'r rhain, ond mae gweithgareddau'n cael eu dilyn a'r cam nesaf fydd gweld a fydd modd drilio drwy'r Pond i weld faint o ddeunyddiau sydd yno.
- c. Y Cyng Meredydd Williams – O ran y gweithlu o 821, ydy pob un o'r gweithwyr hyn yn gweithio yn Traws ynteu a ydyn nhw wedi'u lleoli yn rhywle arall?
Mr Dave Wilson – Ar ddiwrnod cyffredin, mae rhwng 600 a 620 o weithwyr yn Traws, gan gynnwys gweithwyr sifftiau. Mae yna oddeutu 600 o weithwyr yn Traws ond mae 800 ar y gyflogres, gan fod gennym weithwyr yn gweithio mewn mannau eraill megis Daresbury ac yn gwneud gwaith profi yn Cumbria.
- d. Y Cyng John Richards – Mae aelod o'r cyhoedd wedi holi beth ddigwyddodd wrth i ddŵr fynd i un o'r celloedd?
Mr Dave Wilson – Yn dilyn tywydd garw un penwythnos, gwelsom fod ychydig o ddŵr wedi mynd i mewn, ond dim ond ychydig. Nid oedd angen pwmpio dŵr allan na dim byd felly, ac mae popeth yn iawn. Rydym wedi gweld dŵr yn mynd i mewn o'r blaen ond dim ond ychydig bach iawn – cawsom ein dal allan mewn tywydd garw iawn yn ystod y penwythnos hwnnw.
- e. Mr Idwal Williams – Gwnaethoch sôn am newid y polymore yn y resin, beth oedd y rheswm dros newid hyn?
- f. Mr Dave Wilson – Mae llawer o ddeddfwriaeth wedi newid erbyn hyn ac allwch chi ddim cael gafael ar ambell beth. Nid yw'n fater o arian na dim, dim ond pethau sydd ar gael.

6. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng

- 6.1 Cyflwynodd Amanda Tucker ei hun fel y Peiriannydd Paratoadau Argyfwng, yn dilyn ymddeoliad Herbie Renfield. Roedd hi wedi dechrau ar y rôl ar 1af Ebrill, ond wedi bod yn gweithio ar y safle ers dros saith mlynedd.
- 6.2 Roedd y cyfarfod adolygu ymarferion blynyddol gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) wedi cael ei gynnal, ac roedd dyddiad yn ogystal â nodau ac amcanion ar gyfer

ymarfer arddangos Lefel 1 2012 wedi eu pennu. Bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal ar 24ain Gorffennaf 2012, sy'n eithaf buan. Roedd yr ymarfer argyfwng cenedlaethol Lefel 2 ar gyfer 2012 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth ac yn seiliedig ar ddigwyddiad yn Safle Trawsfynydd.

- 6.3 Ni fu dim newidiadau arwyddocaol yn y trefniadau ar gyfer argyfwng. Mae Llawlyfr Argyfwng y Safle yn cael ei adolygu gan ddilyn fformat llawlyfr cyffredinol newydd gan Wasanaethau Cynllunio Brys Magnox. Nid yw Trefniadau Argyfwng y Safle wedi cael eu rhoi ar waith ers y digwyddiad ar 5ed Mai 2011.
 - 6.4 Roedd Herbie Renfield wedi ymddeol o'i rôl fel y Peiriannydd Paratodau Argyfwng ar 31^{ain} Mawrth 2012 ac Amanda oedd wedi cael y gwaith.
 - 6.5 Cafwyd llawer o gefnogaeth gan y tri gwasanaeth brys dros y chwe mis diwethaf i gefnogi hyfforddiant staff. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymarferion safle, ymweliadau ymgyfarwyddo a gweithdai.
 - 6.6 O ran ymarferion, roedd trefniadau diogelwch y safle wedi cael eu harddangos ar 14eg Mawrth, ac roedd hyn wedi bod yn llwyddiant. Roedd yr ymarferion Sifft blynyddol wedi dechrau ym mis Tachwedd 2011 ac wedi cynnwys ymarfer RADSAFE bach, gyda Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cyfrannu'n llawn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan gynrychiolydd o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) a oedd wedi bod yn edrych ar yr ymarfer. Er gwybodaeth, mae RADSAFE yn gynllun sy'n rhoi cymorth i gyrrff sy'n cludo deunyddiau ymbelydrol yn y DU.
7. Adroddiad gan Arolygwr Gosodiadau Niwclear y Safle
Nid oedd Chris Kemp yn bresennol ond roedd adroddiad wedi ei ddarparu.
 8. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd
Nid oedd Steve Howard yn bresennol ac nid oedd adroddiad wedi ei ddarparu.
 9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
 - 9.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Jonathan Jenkin ar ran yr NDA.
 - 9.2 Soniodd Mr Jonathan Jenkin am y broses gystadleuaeth i benodi Rhiant Gorff newydd ar gyfer Magnox ac RSRL. Mae'r NDA newydd gwblhau cyfnod o ymgynghori'n ffurfiol â'r farchnad gyda phartion â diddordeb. Eglurodd y rhesymau dros y broses gystadleuaeth, gan nodi ei bod yn ofynnol o dan y Ddeddf Ynni, ei bod yn ffordd ddefnyddiol o ddangos gwerth gorau am arian, a bod y contract cyfredol â Magnox yn dod i ben a bod angen mynd i dendr yn sgil hynny.
 - 9.3 Fel y soniodd Mr Idwal Williams, roedd cyfarfod wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys cyflwyniad manwl. Bydd y broses yn para oddeutu dwy flynedd a bydd amrywiol gyfnodau allweddol. Ceir tudalen bwrpasol ar y wefan sy'n dangos y dyddiadau allweddol ac yn y blaen. Pwysleisiodd y byddai'r NDA yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid ac yn fwy na bodlon rhoi cyflwyniad manwl ar y mater. Byddai cynhadledd i'r rheini a oedd am wneud cais yn cael ei chynnal ar 19eg Gorffennaf, a dywedodd Mr Jonathan Jenkin y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael gwahoddiad.
 - 9.4 Dyma Mr Jonathan Jenkin yn galw i gof mai Amanda French oedd wedi rhoi'r cyflwyniad hwn y tro diwethaf, a soniodd ei bod bellach wedi symud ymlaen a bod David Edwards wedi cymryd ei lle. Diolchodd y Cadeirydd i Amanda am ei gwasanaeth.
 - 9.5 Yn dilyn ymadawiad Mr Tony Fountain, roedd Mr John Clarke wedi cael ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol newydd. Ac yntau wedi ymuno â Bwrdd yr NDA yn 2008, y mae'n wyneb cyfarwydd.
 - 9.6 Roedd y misoedd diwethaf wedi bod yn brysur. Ar 29ain Chwefror, roedd gorsaf bŵer niwclear Oldbury ger Bryste wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ôl cynhyrchu'n

ddiogel am 45 mlynedd. Ddiwedd Ebrill, roedd Adweithydd 2 Wylfa wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ôl 40 mlynedd o gynhyrchu'n ddiogel. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn eithaf emosiynol, ac roedd Mr Jonathan Jenkin yn falch o weld y wasg yn rhoi sylw i'r digwyddiadau. Byddai Wylfa yn awr yn mynd ati i gynhyrchu hyd eithaf ei gallu hyd at 2014, ac roedd y safle'n aros penderfyniad am drosglwyddo tanwydd er mwyn gallu gwneud hyn.

- 9.7 Mae Dounreay erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith o ddinistrio'r hyn sydd o bosib yn un o ganlyniadau mwyaf peryglus ymchwil niwclear cynharaf y DU. Mae gwaith cemegol a adeiladwyd yn bwrpasol wedi prosesu'r olaf o'r metel hylifol a godwyd o brif gylchedd oeri'r adweithydd bridiol cyflym arbrofol. Roedd yr oerydd – aloi o sodiwm a photasiwm (NaK) – yn berygl cemegol a radiolegol difrifol a ddefnyddiwyd yn Adweithydd Bridiol Cyflym Dounreay, ac roedd ei ddinistrio'n flaenoriaeth allweddol. Unwaith eto, roedd yn dda gweld hyn yn cael sylw gan y wasg.
- 9.8 O ran materion Economaidd-Gymdeithasol, mae'r NDA wedi darparu £350,000 tuag at Gam 2 Rhaglen Datgomisiynu Traws, ond nid yw hyn wedi'i gyhoeddi ar raddfa fawr eto.
- 9.9 Mae Cynllun Ymgysylltu 2012/2013 wedi cael ei gyhoeddi. Mae hwn yn tynnu sylw at gyfleoedd i randdeiliaid. Mae ar gael ar y wefan.

Cwestiynau

- a. Y Cyng Meredydd Williams – Ar ôl cael trafodaethau am y syniad o Ymddriedolaeth Eiddo ac ati, beth yw'r diweddaraf ynghylch hynny? Ydy hynny wedi dod i ben yn awr?
- Mr Jonathan Jenkin – Mae'r NDA wedi ymrwymo arian. Bydd Parth Menter yn cael ei sefydlu a dyna fydd y ffocws yn awr ar gyfer symud ymlaen.
- Holodd y Cyng Meredydd Williams a fyddai modd i'r grŵp gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd, a phwysleisiodd y Cyng John Richards eu bod yn dal i aros am rai atebion.
- b. Y Cyng Meredydd Williams – Mae sôn wedi bod am gwmni yn dangos diddordeb yn Traws, allwch chi roi unrhyw wybodaeth am hynny?
- Mr Jonathan Jenkin – Nid oes unrhyw drafodaethau wedi bod hyd y gwyddom ni.

10. Cyflwyniad ar Safle Wylfa gan Gwmni Pŵer Niwclear Horizon

- 10.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Richard Foxhall, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid, yn ôl i Drawsfynydd, gan ddweud ei fod wedi ei wahodd i'r cyfarfod yn dilyn y newyddion am Wylfa B.
- 10.2 Diolchodd Mr Richard Foxhall i'r Cadeirydd am y croeso a dechreuodd drwy ddweud ei fod yn ffyddiog am brynwr newydd, cyn mynd ymlaen at y cyflwyniad.
- 10.3 Edrychodd ar hanes Horizon, a ffurfiwyd ym mis Ionawr 2009 fel cyd-fenter rhwng E.ON UK ac RWE Npower. Mae gan Horizon 130 aelod o staff sgilgar a llawer iawn o brofiad.
- 10.4 Daeth y newyddion yn annisgwyl gan bapur newydd y Sun. Yn dilyn penderfyniad yr Almaen i gael gwared ar ynni niwclear erbyn 2022, mae'r cwmnïau wedi colli llawer o arian a bydd arnynt angen cryn dipyn o arian i fwrw ymlaen â'r gwaith datgomisiynu. Yn ddiweddar, mae E.ON wedi dweud ei fod wedi gwneud colled o 2.2 biliwn ewro.
- 10.5 Mae'n cael ei gydnabod yn eang mai Wylfa ac Oldbury yw'r ddau safle gorau i fuddsoddi mewn niwclear, ac mae dod o hyd i brynwr ar gyfer Horizon yn flaenoriaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio'n galed i hyrwyddo hyn.
- 10.6 Pe bai popeth wedi digwydd fel roeddent i fod byddem yn y cam ymgynghori erbyn hyn, ond fel y mae pethau, mae gan gwmnïau tan 15fed Mehefin i ddangos diddordeb. Y gobaith yw y bydd cyhoeddiad ar ôl hynny.
- 10.7 Gan edrych ar weithgareddau presennol, ni fydd yn bosib cyflogi prentisiaid ar hyn o bryd, ond mae Pŵer Niwclear Horizon wedi cadarnhau y bydd yn cadw at ei

ymrwymiad i ariannu'r cynllun Cwmni Prentis Menai am yr ail flwyddyn yn olynol. Roeddent hefyd yn cynnal Cymorthfeydd yn lleol ac yn mynd allan i gymunedau i siarad â phobl.

- 10.8 Mae cefnogaeth wleidyddol gref ar gyfer datblygiad newydd, yn enwedig ar Ynys Môn. Mae'r rhan fwyaf o Gynghorwyr wedi mynegi eu cefnogaeth, yn ogystal â Phrif Weinidog Cymru a'r Llywodraeth.
- 10.9 Pam niwclear newydd? Mae angen 60 GW o gapasiti newydd erbyn 2025, mae targed o 35,000 MW ar gyfer ynni adnewyddadwy a 25,000 MW ar gyfer ynni thermol. Byddai niwclear hefyd yn cynnig swyddi – oddeutu 800 o swyddi parhaol tra byddai'r safle'n weithredol.
- 10.10 Pwysleisiodd Mr Richard Foxhall fod y wefan yn cael ei diweddarau'n gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod croeso i unrhyw un gysylltu. Roedd yn gobeithio y byddai'n gallu dod yn ôl yn fuan gyda mwy o wybodaeth.

Cwestiynau

- a. Mr Keith O'Brien – Beth yw'r sefyllfa o ran caniatâd cynllunio?
Mr Richard Foxhall – Bydd y broses cynllunio yn para 18 mis, ac mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn dau gam cyn hynny. Yn ystod y flwyddyn, bydd safbwyntiau'n cael eu hystyried a newidiadau'n cael eu gwneud os oes angen ac os oes modd. Bydd angen edrych ar faterion megis gwelliannau i'r ffyrdd, lliwiau adeiladau ac ati, er mwyn gweld beth sy'n plesio pobl. Yna byddai'r ail gam yn dangos y newidiadau hyn ac yn esbonio pam maent wedi cael eu gwneud neu heb gael eu gwneud.
- b. Y Cyng Meredydd Williams – A fydd gwahaniaeth o ran y peilonau?
Mr Richard Foxhall – Bydd y Grid yn ymgynghori ar y mater hwn, ond oherwydd maint y datblygiad bydd angen llinellau newydd.
- c. Y Cyng Meredydd Williams – Fydd y rhain yn effeithio ar y Carneddau?
Mr Richard Foxhall – Dydw i ddim yn gwybod, ond bydd gwahanol opsiynau ar gyfer y llinellau, megis rhai tanddaearol neu o dan y môr ac ati, bydd yn rhaid i bobl roi eu barn.
- d. Y Cyng Meredydd Williams – Ydy hyn yn debygol o effeithio ar y Parc Cenedlaethol? Ydy'r Parc Cenedlaethol yn ymwybodol o hyn?
Mr Keith O'Brien – Ydy, mae'n ymwybodol.
- e. Mr Dave Wilson – Yn lle fydd yr orsaf ganolog?
Mr Richard Foxhall – Oldbury. Mae gennym siaradwyr Cymraeg yno hefyd.

11. Unrhyw fater arall

- 11.1 Croesawodd y Cadeirydd Zoe Young i'r cyfarfod, a oedd yn y cyfarfod fel arsyllwr. Cyflwynodd hefyd Karen Dickens o dîm cystadleuaeth yr NDA. Eglurodd ei bod yno i drafod cystadleuaeth os oedd gan unrhyw un gwestiynau, ac mai Mr Jonathan Jenkin yw cynrychiolydd arferol yr NDA.
Diweddariad Economaidd-Amgylcheddol
- 11.2 Croesawyd Michelle Humphreys i roi cyflwyniad ar faterion Economaidd-Gymdeithasol. Eglurodd y Cadeirydd bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r system ac mai Michelle, sy'n gweithio o Wylfa, sy'n gyfrifol.
- 11.3 Eglurodd Michelle ei bod yn gweithio gyda Mr John Idris Jones a'i bod wedi bod yn gwneud y gwaith hwn ar gyfer Wylfa. Sicrhaodd y grŵp y byddai Traws yn cael yr un sylw a gofal ganddi. Eglurodd y gellid dod o hyd i ganllawiau a manylion y broses ariannu yn magnoxsocioeconomic.com, a bod 123 cais wedi cael ei gyflwyno, sy'n nifer dda o gofio bod newid wedi bod yn y system. O blith y ceisiadau hynny, roedd 17 ohonynt wedi'u priodoli i Traws, a phwysleisiodd eu bod yn croesawu ceisiadau gan y gymuned.

- Roedd cyfarfod adolygu cyllid ar gyfer y safle leol wedi cael ei gynnal i wneud yn siŵr nad yw'r cyswllt lleol yn cael ei golli drwy ddefnyddio system ganolog, a dywedodd bod y Cadeirydd wedi bod yn help mawr.
- 11.4 Roedd tri chais wedi derbyn arian: Ras y Gader (£150) – i ddarparu arwyddion dwyieithog ar gyfer llwybr y ras; Clybiau Ieuencid Traws, Penrhyndeudraeth a Llan Ffestiniog (£1,000); Ysgol Bro Hedd Wyn ac Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth (£1,000) – i ddarparu trip addysgol i Gaerdydd ar gyfer 25 o ddisgyblion. Mae chwe chais i'w trafod ym mis Gorffennaf.
- 11.5 Roedd Michelle Humphreys hefyd yn falch o gyhoeddi bod yr NDA wedi rhoi £35,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yng Nglynllifon, a ddaeth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru hefyd wedi cael hwb ariannol gan y cynllun Economaidd-Gymdeithasol er mwyn helpu i greu 75 o swyddi ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant dros y tair blynedd nesaf.
- 11.6 Diolchodd y Cadeirydd i Michelle Humphreys a dywedodd pa mor falch ydoedd bod y drefn hon wedi dechrau mewn ffordd mor dda.
- 11.7 Aeth y Cadeirydd ymlaen i drafod bwriad Llywodraeth Cymru i roi datganiad ar y parc diwydiannol ar gyfer Trawsfynydd. Roedd Mr John Idris Jones wedi cael ei benodi'n gadeirydd ar y corff a fydd yn delio â'r parc hwn. Roedd cyfarfod eisoes wedi cael ei gynnal ac roedd Mr Dave Wilson a'r Cadeirydd yn bresennol. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen gwneud yn siŵr nad ydym yn cael datganiadau o wahanol gyfeiriadau ynghylch y mater hwn a'n bod yn cael un datganiad iawn. Yn dilyn hynny, daeth Mr Dylan Griffiths i roi datganiad ar ran Sioned Williams.
- Cyflwyniad gan Mr Dylan Griffiths
- 11.8 Nododd Mr Dylan Griffiths nad oedd hwn yn ddatganiad swyddogol, ond yn fwy o ddiweddariad.
- 11.9 Mae llawer o waith ar y gweill, a dim ond y dechrau yw hyn. Pwysleisiodd fod y gymuned wedi bod yn gwneud gwaith ers blynyddoedd – y Cyngor, yr NDA, Magnox, Llywodraeth Cymru a'r Parc Cenedlaethol – ac mai parhad o'r gwaith hwn fyddai hyn.
- 11.10 Y nod yw adeiladu ar adnoddau a rhinweddau'r safle, nid adeiladu parc busnes neu barc diwydiannol mwy traddodiadol, ac ystyried cyfleoedd y safle.
- 11.11 Y llynedd, penderfynwyd sefydlu Parthau Menter yng Nghymru, ond yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn yr 1980au, ni fydd arian yn cael ei daflu y tro hwn. Ar ôl cyhoeddi'r pum parth gwreiddiol, roedd cyfle i gyflwyno ceisiadau ychwanegol, a gwnaed hynny'n llwyddiannus er bod llawer o gystadleuaeth.
- 11.12 Yn ystod y mis diwethaf, mae Edwina Hart wedi cadarnhau y bydd y statws hwn yn dod i Traws, ac mae Grŵp Prosiect wedi cael ei sefydlu.
- 11.13 Ni fydd y tir i gyd yn cael ei ddatblygu, dim ond manau addas o fewn yr ardal hon.
- 11.14 Mae dau faes blaenoriaeth wedi'u nodi. Y cyntaf yw'r maes digidol a fyddai'n denu cwmnïau yn y byd digidol – mae llawer o gwmnïau eisoes wedi dangos diddordeb ac mae hynny'n galonogol iawn. Yr ail faes yw ynni adnewyddadwy, ac unwaith eto, mae cwmnïau wedi dangos diddordeb heb i ni orfod chwilio amdanynt.
- 11.15 Bydd Bwrdd y Parth Menter yn cael ei gadeirio gan Mr John Idris Jones.
- 11.16 Mae gwaith technegol yn cael ei goladu ar hyn o bryd er mwyn gweld pa waith technegol sydd angen ei wneud, er enghraifft, band eang cyflym iawn ar gyfer y safle. Mae gwaith hamdden ar y gweill hefyd, ac adnoddau ychwanegol eisoes wedi'u sicrhau – mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynnig £180,000 ar gyfer adnoddau wrth y llyn. Fel y soniwyd yn gynharach, megis dechrau ydym ni.
- Cwestiynau
- a. Y Cyng Meredydd Williams – Dylem groesawu unrhyw beth sy'n dod i'r ardal. Faint o dir sydd gan yr NDA i'w gynnig ar hyn o bryd, gan gofio am anghenion Magnox a'r

NDA dros y blynyddoedd nesaf? A oes rheswm pam nad yw tref Blaenau wedi'i chynnwys yn y parth?

Mr Dylan Griffiths – Mae'r parthau'n gorfod bod yn ardaloedd bach. Rydym yn edrych ar ddarnau o dir ar hyn o bryd ac yn cael trafodaethau adeiladol gan edrych ar y tymor byr a'r tymor hir. Er bod y safle wedi'i bennu, bydd yn bosib i fusnesau ym Mlaenau fanteisio ar Traws.

b. Y Cyng Meredydd Williams – A oes pryder y bydd y darn o dir yn rhy fach?

Mr Dylan Griffiths – Mae'r pwyslais yn cael ei roi ar lefydd llai – nid ydym yn edrych ar ystâd ddiwydiannol fawr, fodd bynnag gellir gwneud defnydd dwys o'r tir.

c. Y Cyng Meredydd Williams – Y peth olaf rydym ni ei eisiau yw llawer o gyhoeddusrwydd a dim byd yn digwydd. Nid yw'r Cynulliad wedi mynd allan i ddenu diwydiannau.

Mr Dylan Griffiths – Mae yna bwysau anferthol yn mynd i fod ar Edwina Hart i gyflawni.

Cadeirydd – Y peth pwysig yw bod gwaith yn cael ei wneud, a dyna oedd pwyslais hyn i gyd. Nod cyntaf y panel oedd gwneud yn siŵr bod pethau'n cael eu trin a'u trafod a bod un penderfyniad terfynol i weithredu arno. Mae'r broses wedi cychwyn yn iawn a bydd Bwrdd Panel Trosolwg Trawsfynydd yn dal i weithredu gyda'r Bwrdd swyddogol.

d. Y Cyng Caerwyn Roberts – Gan ystyried ein bod mewn Parc Cenedlaethol, faint o gydweithredu sydd wedi bod?

Mr Dylan Griffiths – Mae'r gwaith gyda'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn adeiladol iawn. Cafwyd cyn lleied o amser i gyflwyno'r cais, doedd dim cymaint â hynny o gyfle ar y dechrau, ond ers hynny mae'r cyfathrebu wedi bod yn dda.

11.17 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Chris Skarratt o'r Grŵp Strategaeth Treftadaeth i roi diweddariad i'r grŵp.

11.18 Dywedodd Mr Chris Skarratt wrth y cyfarfod fod pedair ffrwd waith wedi cael eu sefydlu:

1. Arolwg ffotograffig – mewnol ac allanol – a fyddai'n mynd ar y wefan
2. Cofnodi hanes diwylliannol y safle. Roedd menyw o Fangor wedi bod yn cymryd cofnodion fideo ac roedd y rhain wedi cael eu rhoi ar Gasgliad y Werin ar y we. Ddiweddd Gorffennaf, bydd diwrnod agored yn cael ei gynnal ar y safle am ddau ddiwrnod er mwyn cymryd cofnodion digidol o hanes
3. Gweithgareddau – ar y cyd â llyfrgelloedd Aberystwyth a Dolgellau, sy'n rhoi cyfle i edrych ar ddogfennau sydd o ddiddordeb a'u storio yn y fformat gorau
4. Arddangosfa sy'n edrych ar y darlun ehangach o gynhyrchu trydan yng Ngogledd Cymru.

11.19 Mae hyn oll wedi cael ei roi at ei gilydd gan Linda Thomas o CyMAL, ac ar 14eg Tachwedd, bydd cynhadledd yn cael ei chynnal i ddod â'r pedair ffrwd waith i ben. Bydd gwaith CyMAL yn dod i ben bryd hynny.

11.20 Dywedodd y Cadeirydd bod amrywiol bobl wedi cyfrannu, megis Joanna Wright o Brifysgol Bangor, a Naomi Jones o'r Parc Cenedlaethol, a oedd wedi gwneud gwaith rhagorol.

11.21 Bydd arddangosfa yn cael ei chynnal ddydd Iau 26ain a dydd Gwener 27ain. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd a'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle ddod â hen ffotograffau a gwybodaeth gyda nhw, a bydd adnoddau i gasglu atgofion.

11.22 Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall. Gofynnodd y Cyng John Richards a fyddai modd cael y cofnodion yn gynt. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn tueddu i ddal ei afael arnynt ac yn eu hanfon wythnos neu ddwy cyn y cyfarfod er mwyn atgoffa pawb amdano. Gofynnwyd a fyddai modd rhoi'r cofnodion ar y we, a dywedodd Mr Idwal Williams eu bod wedi cael eu rhoi ar y we ond eu bod wedi cael eu tynnu'n ôl wedyn.

- 11.23 Eglurodd y Cadeirydd mai ei benderfyniad ef oedd hyn ac atgoffodd bawb nad oedd y cofnodion wedi cael eu cadarnhau tan heddiw a'i bod yn rhaid iddynt gael eu cadarnhau a'u cywiro cyn cael eu darparu i'r cyhoedd. Holodd y Cyng Meredydd Williams hefyd a fyddai modd i'r cofnodion ddod allan yn gynt, gan ddweud bod pobl yn holi amdanynt. Atebodd y Cadeirydd y byddent yn cael eu hanfon yn gynt heb eu cadarnhau ond na fyddai ef yn cymryd y bai am beidio ag atgoffa pobl am y cyfarfod.
- 11.24 Gofynnodd Mr Idwal Williams am benderfyniad ynghylch rhoi'r cofnodion ar y we. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd y cofnodion wedi cael eu cymeradwyo fel rhai cywir tan heddiw a thrafodwyd a fyddai posib eu cyhoeddi ar ffurf drafft, gyda hynny wedi'i nodi'n glir arnynt. Awgrymodd y Cyng Gareth Thomas anfon y cofnodion dros yr e-bost yn hytrach na'u rhoi ar y we oherwydd drwy wneud hynny byddai'r aelodau'n gallu eu gweld yn gynt ond byddent hefyd yn aros yn breifat.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 10fed Rhagfyr 2012.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.